

# Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

## Hawlfraint

Dyddiad: 1 Mawrth 2022

---

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn ymwneud â materion hawlfraint Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (y Gymdeithas) mewn perthynas â'r wefan hon ac â'r hawl i ddefnyddio logo'r Gymdeithas, sef:

Trwydded Llywodraeth Agored  
Ail-ddefnyddio delweddau  
Defnyddio logo'r Gymdeithas

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl destun ar y wefan hon o eiddo y Gymdeithas ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) v 3.0 - <https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/> - ac eithrio lle nodir yn wahanol. Os ydych yn ail-ddefnyddio cynnwys testun o dan y OGL, rhaid i chi gynnwys y gydnabyddiaeth hon: Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, [enw a dyddiad cyhoeddi], wedi'i drwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored.

Os hoffech ail-ddefnyddio deunyddiau'r Gymdeithas ond y byddai'r ail-ddefnyddio arfaethedig yn mynd yn groes i unrhyw un o amodau'r OGL, dylech gysylltu â swyddfa'r Gymdeithas ([swyddfa@cymdeithas.cymru](mailto:swyddfa@cymdeithas.cymru)).

Bydd deunyddiau a gaiff eu lawrlwytho o wefan y Gymdeithas yn fersiynau cyfredol. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn defnyddio'r deunyddiau mwyaf cyfredol bob amser.

Mae'r Gymdeithas yn diweddarau ei chanllawiau a deunyddiau eraill o bryd i'w gilydd. Rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio'r fersiynau diweddaraf drwy gyfeirio at wefan y Gymdeithas.

Nid yw'r ffaith fod y Gymdeithas yn defnyddio'r OGL yn effeithio ar hawliau eiddo deallusol y Gymdeithas, gan gynnwys hawlfraint yn ei ddeunyddiau. Mae'r hawliau hyn yn dal i fod yn eiddo i'r Gymdeithas.

## Ail-ddefnyddio delweddau

Nid yw delweddau ar gael i'w hail-ddefnyddio o dan yr OGL oherwydd yn y rhan fwyaf o achosion mae hawlfraint yn cael ei ddal gan drydydd parti. Nid yw'r Gymdeithas yn rhoi unrhyw hawliau i unrhyw un ail-ddefnyddio delweddau.

Cysylltwch â'r Gymdeithas trwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod i ofyn am ganiatâd a pha amodau ychwanegol, os o gwbl, a all fod yn berthnasol. Dylai eich cais fod yn ysgrifenedig, gan nodi enw a chyfeiriad yr ymgeisydd, ffynhonnell y wybodaeth yr ydych am ei ddefnyddio a'r diben i'w ail-ddefnyddio.

I gael gwybodaeth am yr hyn a wnawn gyda data personol gweler ein hysbysiad preifatrwydd.

## **Defnyddio logo'r Gymdeithas**

Mae defnyddio logo'r Gymdeithas mewn unrhyw le neu mewn unrhyw ddull heb ganiatâd y Gymdeithas yn torri'r hawlfraint a gedwir mewn perthynas â'r logo.

Ystyriwn fod defnyddio logo'r Gymdeithas mewn unrhyw le, e.e. gwefan, dogfen, yn dynodi bod y wybodaeth honno wedi'i pharatoi neu ei chymeradwyo gan y Gymdeithas. Felly, ni chaniateir defnyddio nac atgynhyrchu'r logo ar unrhyw ffurf oni bai bod y Gymdeithas yn caniatáu ac yn cymeradwyo hynny. I ddefnyddio'r logo, dylid holi am ganiatâd i wneud hynny gan Brif Weithredwr y Gymdeithas

Defnyddir y logo ar ddeunyddiau a gynhyrchir gan y Gymdeithas yn unig neu lle mae'r Gymdeithas wedi gweithio ar y cyd â'r sawl sy'n defnyddio'r logo neu mae'r Gymdeithas wedi rhoi caniatâd i'r logo gael ei ddefnyddio.

Darperir logos arbennig i'w defnyddio gan Aelodau Cyflawn, Aelodau CAP a Chwmnïau Cydnabyddedig yn unig.